# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 (Tŷ Hywel)**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Medi 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod

(13:00-13:30)

## Sesiwn gyhoeddus

(13:30 - 15:05)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13:30)

## 2 Craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yng Nghyfnod 1: sesiwn dystiolaeth gyntaf - Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

(13:30-15:00) (Tudalennau 1 - 17)

Mark Isherwood AS

Gareth Rogers, Rheolwr y Bil, Comisiwn y Senedd

Claire Thomas, Gwasanaeth Ymchwil, Comisiwn y Senedd

Gareth Howells, Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Senedd

Bil Iaith Arwyddion Prydain (IAP) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) - Memorandwm Esboniadol

Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) - Crynodeb o'r Bil

## 3 Papurau i'w nodi

(15:00-15:05)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.1 Gohebiaeth gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ynghylch gwaith ymchwil newydd ar anghenion gofal plant teuluoedd yng Nghymru

(Tudalennau 18 - 20)

3.2 Gohebiaeth at y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch defnyddio taser ar blant gan Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr

(Tudalennau 21 - 23)

3.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Cadeirydd ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: "Gwrandawiad cyn penodi: Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol."

(Tudalen 24)

3.4 Gohebiaeth gan Joyce Watson AS at y Cadeirydd ynghylch yr Adolygiad o Senedd sy'n Ystyriol o Deuluoedd a Chynhwysol

(Tudalennau 25 - 27)

3.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Cadeirydd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

(Tudalennau 28 - 33)

3.6 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau at y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ynghylch deiseb rhif P-06-1530: "Achub Darpariaeth Gofal Plant yng Nghymru"

(Tudalennau 34 - 39)

3.7 Gohebiaeth gan yr Awdurdod Monitro Annibynnol at y Cadeirydd ynghylch datganiad ar newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo: HC 836

(Tudalennau 40 - 44)

3.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch rheoliadau mewn perthynas â Rhan 3 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

(Tudalen 45)

3.9 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Carchar y Parc.

(Tudalennau 46 - 47)

3.10 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Cadeirydd ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: "Cynyddu'r gwres cyn 2160: amser i gyflymu'r gwaith o drechu tlodi tanwydd".

(Tudalen 48)

3.11 Gohebiaeth gan y Gweinidog Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd at y Cadeirydd ynghylch newidiadau i gefnogaeth i bobl anabl a diwygio lles.

(Tudalennau 49 - 62)

3.12 Gohebiaeth gan National Energy Action at y Cadeirydd ynghylch tlodi tanwydd yng Nghymru.

(Tudalennau 63 - 64)

3.13 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Trosglwyddiad Cyllideb wedi'i gytuno rhwng Llywodraeth y DU, yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg a Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 65 - 66)

3.14 Gohebiaeth gan y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder at y Cadeirydd ynghylch y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

(Tudalennau 67 - 70)

3.15 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Cadeirydd ynghylch rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

(Tudalennau 71 - 80)

3.16 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif

Chwip at y Cadeirydd ynghylch cynigion yn ymwneud â diwygio llywodraethiant ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub.

(Tudalen 81)

3.17 Tystiolaeth ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(Tudalennau 82 - 83)

3.18 Fersiwn hawdd ei darllen o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor: Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani!: Mynd i'r afael â'r "Bwlch Cyflogaeth Anabledd"

(Tudalennau 84 - 104)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(15:05)

## Sesiwn breifat

(15:05 - 16:05)

## 5 Craffu yng nghyfnod 1 ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): trafod y dystiolaeth

(15:05-15:15)

## 6 Cydlyniant cymdeithasol: ystyried yr adroddiad drafft

(15:15-15:45) (I ddilyn)

## Egwyl

(15:45-15:50)

## 7 Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): paratoi ar gyfer craffu

(15:50 -16:05)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Nodyn Briffio: Gwaith ymchwil newydd ar anghenion gofal plant teuluoedd yng Nghymru

Gorffennaf 2025

## Cefndir

Gyda gofal plant yn cael ei ehangu'n sylweddol yn Lloegr ar hyn o bryd, mae mwy a mwy o bwysau yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru i wella'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd ar yr ochr yma o'r ffin. Rydym wedi holi rhieni a gofalwyr sydd â phlant o dan bum mlwydd oed am eu profiadau o ddefnyddio gofal plant, yr effaith ar eu teuluoedd, a'r hyn a fyddai o gymorth iddyn nhw.

Mae'r prif ganfyddiadau a gyflwynir yn y nodyn briffio hwn yn seiliedig ar arolwg ar-lein o **780 o rieni a gofalwyr oedd â phlant o dan bum mlwydd oed**.[1] Cynhaliwyd yr arolwg gan **Arad** ar ran **Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM)** rhwng canol mis Mawrth a chanol mis Mai 2025.

## Canfyddiadau allweddol

### 1. Mae diffyg gofal plant yn achosi straen yn y cartref drwy effeithio'n negyddol ar rieni a bywyd cartref

- Dywedodd **84%** o ymatebwyr bod eu trefniadau gofal plant yn cael **effaith gadarnhaol neu led-gadarnhaol ar eu plant**
- Ond dywedodd bron i **3 o bob 10 (28%)** bod eu trefniadau **gofal plant** yn cael **effaith negyddol neu led-negyddol arnyn nhw eu hunain**
- Dywedodd **41%** bod eu trefniadau gofal plant yn cael **effaith negyddol neu led-negyddol ar eu bywyd cartref.**

### 2. Mae addasiadau ac aberthau i reoli gofal plant yn effeithio ar gyllid teuluoedd ac mae oedolion a phlant yn teimlo hynny

- Roedd yn rhaid i **60%** o'r ymatebwyr **leihau faint o oriau maen nhw'n eu gweithio**
- Roedd yn rhaid i **42% leihau faint maen nhw'n ei wario ar bethau hanfodol** megis bwyd, rhent, neu wresogi

[1]Ymatebodd cyfanswm o 883 o rieni a gofalwyr i'r arolwg. O'r rhain, nid oedd gan 103 ohonynt blant rhwng 0–4 oed. Rhoddwyd cyfle iddyn nhw roi sylwadau ar ofal plant cyn gadael yr arolwg.

- Roedd yn rhaid i **35% leihau faint maen nhw'n ei wario** ar bethau i'w plant sydd ddim yn hanfodol, megis **dillad, teganau neu weithgareddau**.

### 3. Mae diffyg gofal plant yn rhwystro gwaith ac addysg rhieni

- Roedd **89%** o'r ymatebwyr sydd **ddim yn defnyddio unrhyw ofal plant ffurfiol** yn **methu â gweithio neu astudio** cymaint ag yr hoffent **(119 o ymatebion)**
- Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol, roedd y gyfran **nad oedd yn gallu gweithio neu astudio** cymaint ag yr hoffent yn dal i fod mor uchel â **60% (345 o ymatebion)**
- Roedd y ffigyrau hyn yn **waeth ar gyfer teuluoedd oedd ag incwm is na'r cyfartaledd**, gyda **dwy ran o dair** o'r ymatebwyr yn methu gweithio nac astudio cymaint ag y byddent yn hoffi (66%), o'i gymharu ag **ychydig dros hanner (55%)** o theuluoedd oedd ag **incwm uwch na'r cyfartaledd**.

### 4. Mae costau gofal plant yn rhwystro gwaith ac addysg, ond felly hefyd problemau gyda thrafnidiaeth ac oriau anhyblyg

- **Costau gofal plant yw'r prif ffactor** sy'n atal gweithio neu astudio **(83%)**, gyda ffactorau fel **mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu, a thrafnidiaeth o un lle i'r llall (35%)**, a **dim gofal ar gael pan fo'i angen (32%)**
- Ymhlith rhieni a gofalwyr plant **rhwng tri a phedwar oed, roedd bron i hanner (45%)** yn dweud bod **trafferthion o ran mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu, a thrafnidiaeth o un lle i'r llall** yn rhesymau pam na allan nhw weithio neu astudio cymaint ag yr hoffent
- Pan ofynnwyd iddynt beth fyddai'n eu galluogi i weithio ac i astudio cymaint ag yr hoffent, atebodd y mwyafrif helaeth trwy ddweud **gofal plant mwy fforddiadwy (83%)**, ac atebodd **bron i hanner (46%)** trwy ddweud **gofal plant mwy hyblyg**, megis oriau anarferol neu ofal rhan-amser.

### 5. Mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth glir am ofal plant

- Roedd bron i **70%** o'r holl ymatebwyr yn cael trafferth ddod o hyd i **wybodaeth am gymorth ariannol** ar gyfer gofal plant **(69%)**
- Roedd **bron i hanner (45%)** yn cael trafferth ddod o hyd i **wybodaeth am ddewisiadau gofal plant** yn eu hardal.

### 6. Nid yw anghenion gofal plant teuluoedd sydd eisoes yn defnyddio gofal plant yn cael eu diwallu

- Byddai **72%** o'r ymatebwyr (478 o ymatebion) yn defnyddio mwy o ofal plant pe bai'n **fforddiadwy ac ar gael**
- Cododd y ffigur hwn i **81%** ymhlith ymatebwyr â **phlant o dan ddwy oed** (179 o ymatebion).

### Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar y meysydd allweddol canlynol:

- Lleihau costau gofal plant i deuluoedd – yn enwedig i blant o dan dair oed
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch cymorth ariannol gyda chostau gofal plant ac ar ddewisiadau gofal plant lleol
- Symleiddio'r broses ymgeisio a gweithredu fel bod teuluoedd yn gallu manteisio ar y gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi
- Cydweithio â'r sector ar gynnig oriau mwy hyblyg ac i egluro costau'n well.

Bydd rhagor o waith dadansoddi yn digwydd yn y mis nesaf, a bydd adroddiad terfynol ynghyd ag awgrymiadau manwl yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi.

**Os hoffech chi drafodaeth gychwynnol ar y canfyddiadau hyn, cysylltwch â jessica@wenwales.org.uk.**

## Ynghylch Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru

Ein gweledigaeth yw Cymru lle na cheir gwahaniaethu ar sail rhywedd, lle mae gan bawb gyfle ac awdurdod cyfartal i siapio cymdeithas a'u bywydau eu hunain. Rydyn ni'n cydweithio â'n hamrywiaeth o aelodau sefydliadol ac annibynnol i drawsnewid cymdeithas. Mae ein gwaith wedi'i seilio ar dair colofn - byddwn ni'n cysylltu, yn ymgyrchu, ac yn hyrwyddo menywod nes caiff ein gweledigaeth ei gwireddu.

**Noddwyd yr ymchwil hwn gan Ymddiriedolaeth Tegwch Ariannol abrdn.**

WEN Wales Cymru

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/358/25

Jenny Rathbone AS
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Buffy Williams AS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

17 Gorffennaf 2025

Annwyl Jenny a Buffy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf yn tynnu fy sylw at y briff gan Ganolfan Gyfreithiol Plant Cymru ynghylch y posibilrwydd o awdurdodi Taser 10, i'w ddefnyddio gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

Diolch i chi am roi o'ch amser i ysgrifennu ataf, ac isod fe welwch fy ymateb i'r pum cwestiwn a ofynnwyd gennych:

1. *Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y defnydd o ynnau Taser ar blant gan heddluoedd yng Nghymru? Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i Weinidogion y DU a heddluoedd yng Nghymru ynghylch eu defnydd ar blant?*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y defnydd o ynnau taser ar blant gan heddluoedd yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau system cyfiawnder troseddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyriol i drawma, i atal troseddau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau datganoledig teg a chyfartal fel bod pawb yn y system cyfiawnder troseddol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw bywydau llwyddiannus, heb droseddu.

Enghraifft o'r dull hwn yw'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, a ddatblygwyd gennym ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Plismona yng Nghymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid trydydd sector. Mae'n cydnabod yr ymrwymiad i sicrhau hawliau plant yng Nghymru ac mae'r dull system gyfan yn ystyried erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth lunio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i Gymru. Mae'n nodi'r uchelgais i greu system seiliedig ar hawliau sy'n ystyriol o drawma, a fydd yn helpu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (y Panel), sy'n cael ei gynnull a'i gadeirio ar y cyd rhwng Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yn cynghori ac yn craffu ar waith Llywodraeth Cymru wrth weithredu polisi i atal troseddau ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc yng Nghymru. Maes allweddol o ffocws strategol y Panel yw gweithio mewn partneriaeth gyda phlismona a'r berthynas rhwng cyfiawnder ieuenctid a phlismona sy'n canolbwyntio ar blant.

Mae'r defnydd o ynnau taser, pwerau'r heddlu a chyfiawnder a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â nhw yn faterion sydd wedi'u cadw yn ôl i Lywodraeth y DU. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu deddfu a gwahardd defnyddio cyfarpar o'r fath. Mae plismona, defnyddio grym yn y ddalfa, a defnyddio gynnau taser a chyfarpar eraill o'r fath i gyd yn gyfrifoldebau i Lywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Phlismona yng Nghymru, felly gofynnais am eu barn ynglŷn â'r defnydd o taser 10, a defnyddio gynnau taser ar blant yng Nghymru.

Mae Plismona yng Nghymru wedi darparu'r wybodaeth isod:

- Ar hyn o bryd, nid yw'r dull taser 10 wedi'i gymeradwyo na'i gyflwyno gan Plismona yng Nghymru.
- Mae'r defnydd o ynnau taser yn cael ei fonitro'n genedlaethol ac yn destun craffu annibynnol bob chwarter, sy'n edrych ar stopio, chwilio a defnyddio grym (a bydd yn cynnwys defnyddio gynnau taser ar blant a phobl ifanc).
- Mae’r defnydd o ynnau taser sy'n ymwneud â phlant (11-17 oed) yn gyffredinol yn brin.

2. *Pa ran y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn y gwaith o lunio polisi Llywodraeth y DU ar ddefnyddio gynnau Taser ar blant? Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod hawliau plant a'r cyd-destun datganoledig yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU?*

Fel y nodwyd uchod, mae plismona yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU, felly nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio polisi Llywodraeth y DU ar ddefnyddio gynnau taser ar blant.

3. *Sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr effaith ar blant yn cael ei hasesu'n briodol gan Lywodraeth y DU?*

Rwy'n ymwybodol bod y Gwir Anrhydeddus Fonesig Diana Johnson DBE AS, y Gweinidog Gwladol dros Blismona ac Atal Troseddu, wedi derbyn cwestiwn ysgrifenedig ym mis Ebrill 2025, yn cwestiynu a fyddai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gynnal cyn awdurdodi Taser 10 i'w ddefnyddio gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

Yn ei hymateb, sicrhaodd y Fonesig Diana fod penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch a ddylid cymeradwyo Taser i'w ddefnyddio gan yr heddlu yn seiliedig ar brofion ac asesiadau technegol a meddygol cadarn, annibynnol, ynghyd ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn nodi unrhyw oblygiadau i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran.

Byddaf yn ysgrifennu at y Fonesig Diana, i fynegi fy mhryderon ynghylch y defnydd o ynnau taser ar blant. Byddaf hefyd yn ceisio sicrwydd ynghylch cysondeb y polisi hwn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn, ac yn gofyn am ragor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch sut mae Llywodraeth y DU yn bwriadu asesu'r effaith ar blant.

4. *A wnaiff Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU gynnal a chyhoeddi Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar y polisi ac ymrwymo i wneud hynny ar gyfer pob newid yn y dyfodol i dechnoleg gorfodi'r heddlu sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru?*

Fel y nodwyd uchod, mae plismona yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU, felly penderfyniad i Lywodraeth y DU fyddai hwn. Byddaf yn codi'r mater gyda'r Fonesig Diana yn fy llythyr a gallaf rannu'r ymateb gyda'r Pwyllgor.


5. *Sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i wella tryloywder data ac adrodd ynghylch defnyddio gynnau Taser a thechnolegau gorfodi eraill yr heddlu, yn enwedig yr angen am ddata wedi'u dadgyfuno ar gyfer Cymru?*

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn derbyn y data cyfiawnder sydd ei angen arni i wneud gwaith polisi a chyflawni yn effeithiol ym meysydd y system gyfiawnder yr ydym yn gyfrifol amdanynt, ac i barhau â'n gwaith datblygu polisi ar ddatganoli llawn (gan gynnwys plismona) a dyfodol y system gyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Yn yr un modd, fel y nodwyd gan Gomisiwn Thomas, mae'n hanfodol sicrhau bod digon o wybodaeth hygyrch yn y parth cyhoeddus am sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio yng Nghymru. Dylai pobl allu deall yn hawdd sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio lle maen nhw'n byw.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei chyfrifoldebau a gedwir yn ôl sy'n ymwneud â'r mater hwn, ac fe fyddwn yn barod i rannu unrhyw wybodaeth bellach neu sicrwydd sy'n dod i law yn y man.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

21 Gorffennaf 2025

Annwyl Jenny

**Ynghylch: Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Gwrandawiad cyn penodi: Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol'.**

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu gwaith craffu ar yr ymgeisydd a ffafriwyd gennyf ar gyfer swydd y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae hon yn rhan hynod bwysig o'r broses, ac rwy'n falch eich bod wedi gallu cymeradwyo'r ymgeisydd a ffafriwyd, Johanna Robinson.

Rwyf heddiw wedi ysgrifennu at Ms Robinson yn ei gwahodd i wasanaethu'n ffurfiol fel y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o 1 Tachwedd 2025 ymlaen.

Yn gywir

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

22 Gorffennaf 2025

Annwyl Jenny,

**Adolygiad Seneddol sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd**

Fel y gwyddoch, efallai, roedd **Adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor Biliau Diwygio ar *Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)* yn argymell y dylai'r Comisiwn gynnal archwiliad seneddol sy'n sensitif i rywedd o ran diwylliant, ffyrdd o weithio a chyfleusterau'r Senedd, a hynny mewn da bryd i lywio penderfyniadau'r Seithfed Senedd.

Fel Comisiynydd y Senedd gyda'r portffolio dros Gydraddoldeb, fi fydd yn arwain y gwaith hwn. Mae Comisiwn y Senedd wedi cytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr archwiliad, ac rydw i wedi'i atodi i'r llythyr hwn er gwybodaeth.

Nod cyffredinol yr archwiliad yw sicrhau bod y Senedd yn mynd ati i gefnogi cynrychiolaeth a chyfranogiad cynhwysol ar draws pob maes gwaith seneddol. Yn benodol, bydd:

- Yn pwyso a mesur cynnydd y Senedd i ddod yn senedd gynhwysol sy'n sensitif i rywedd dros y 26 mlynedd diwethaf;
- Yn nodi lle mae angen cynnydd pellach i wella sensitifrwydd a chynhwysiant o ran rhywedd ar draws pob agwedd ar waith seneddol, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau seneddol;
- Yn sicrhau bod profiadau bywyd a syniadau Aelodau yn llywio penderfyniadau ynghylch ffyrdd o weithio yn y dyfodol;
- Yn mabwysiadu dull croestoriadol, gan gydnabod sut mae rhywedd yn croestorri â nodweddion eraill i ddylanwadu ar fynediad, cyfranogiad a phŵer, ac
- Yn cynnig argymhellion amserol a gweithredadwy i Gomisiwn a Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd.

Caiff y gwaith hwn ei oruchwylio gan fwrdd, sy'n cynnwys:

Peter Fox AS, y Ceidwadwyr Cymreig

Siân Gwenllian AS, Plaid Cymru

Mike Hedges AS, Llafur Cymru

Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Cynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Gorffennaf 2025 a chytunodd i alw'r gwaith hwn yn 'Adolygiad Seneddol sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd' i roi arwydd cliriach mai diben y prosiect yw hyrwyddo cynhwysiant. Y bwriad yw adrodd erbyn diwedd 2025. Mae’r gwaith o recriwtio academydd allanol i gynnal cyfweliadau a chasglu data ar y gweill ar hyn o bryd.

Byddaf yn rhoi diweddariad i Gomisiwn y Senedd ac i’ch Pwyllgor ar adegau priodol, fodd bynnag, rwy’n croesawu eich mewnbwn ar unrhyw adeg ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi.

Yn gywir

**Joyce Watson AS**

**Atodiad: Cylch gorchwyl ar gyfer Archwiliad Sensitif i Rywedd o'r Senedd**

Mae gan Fwrdd yr Archwiliad Sensitif i Rywedd o'r Senedd gylch gwaith i ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiad i Gomisiwn y Senedd arnynt erbyn diwedd 2025:

- i ba raddau y mae'r Senedd ar hyn o bryd, yn enwedig yn ei phroses gwneud penderfyniadau seneddol:
    i. yn gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu cydraddoldeb rhywedd fel amcan cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol;
    ii. yn mynd ati i gefnogi cynrychiolaeth a chyfranogiad cynhwysol, gan gydnabod sut mae rhywedd yn croestorri â nodweddion eraill i lywio mynediad, cyfranogiad a phŵer, ac
    iii. yn ailgyfeirio ac yn trawsnewid ei diwylliant, ei phrosesau, ei harferion a'i hallbynnau sefydliadol tuag at yr amcanion hyn;
- nodi lle mae angen cynnydd pellach i wella sensitifrwydd a chynhwysiant rhywedd ar draws pob agwedd ar waith seneddol, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau seneddol, gan ddarparu argymhellion amserol a gweithredadwy i Gomisiwn a Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd.

Wrth gynnal ei waith, bydd Bwrdd yr Archwiliad Sensitif i Rywedd o'r Senedd yn defnyddio cymrawd academaidd i wneud gwaith casglu data yn defnyddio dulliau cymysg trylwyr a moesegol, gan gynnwys dulliau meintiol ac ansoddol.

Bydd Cadeirydd Bwrdd yr Archwiliad Sensitif i Rywedd o'r Senedd (Joyce Watson AS) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bwrdd i Gomisiwn y Senedd ar adegau priodol.

Bydd yr archwiliad hefyd yn ystyried yr adolygiadau a'r argymhellion a wnaed ynghylch cynrychiolaeth yn y Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill): **adolygiad academaidd o rwystrau a chymhellion i sefyll mewn etholiad** a gomisiynwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2018; **argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol** ynglŷn â chynrychiolaeth amrywiol yn 2017, a gwaith diweddar **Pwyllgor Senedd y Dyfodol** ar atebion i rwystrau i gynrychiolaeth.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol:

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

23 Gorffennaf 2025

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27


Annwyl Jeremy, Dawn a Sarah,

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn i chi ymddangos gerbron y Pwyllgor, a bydd y dyddiad ar gyfer hynny yn cael ei drefnu maes o law.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o’r meysydd a restrir yn yr atodiad i’r llythyr hwn ddiddordeb hefyd, rwy’n anfon copi at gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Atodiad A: Cais i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, a’r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch gwaith craffu’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2026-27

## 1. Dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (fel sy’n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb ddrafft 2026-27.
- Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2024-25.
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26
- Unrhyw gyllidebau dangosol a osodwyd ar gyfer y tu hwnt i 2026-27.
- Disgrifiad o unrhyw newidiadau i linellau sylfaen a ddefnyddir yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 o Gyllideb Atodol Gyntaf Mehefin 2025.

Yng ngoleuni cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar 1 Gorffennaf y bydd cyllideb 2026-27 yn cynyddu cyllidebau adrannol yn ôl chwyddiant, yn hytrach nag adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau newydd, sut mae Ysgrifennydd y Cabinet a Gweinidogion wedi gallu ystyried materion sy'n dod i'r amlwg ac yn cynyddu i blant a phobl ifanc ers gosod cyllideb 2025-26.

## 2. Asesiadau o effaith

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant Cyfunol ar draws pob portffolio: Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i lywio'r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2026-27.
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2026-27.
- Effeithiau eraill: Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o gydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Diweddariad naratif o gynnydd y canlynol, wedi'i gynnwys ar dudalen 4 o'ch ymateb i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26:

> *Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, yr adolygiad cyntaf ers iddo gael ei gyflwyno yn 2015-16, i sicrhau ei fod yn addas at y diben o hyd ac ystyried ble y gellid gwneud gwelliannau yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn dod i ben yn 2025. Trysorlys Cymru sy'n arwain yr adolygiad hwn gyda mewnbwn gan y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.*

## 3. Y Rhaglen Lywodraethu

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid yng nghyd-destun Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru am:

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Dyraniadau y gofynnwyd amdanynt a manylion naratif |
|---|---|
| Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2026-27. |
| Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2026-27. |
| Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2026-27 |
| Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2026-27. |
| Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion byd gwaith. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2026-27.<br>Effaith gyffredinol a dyraniadau i gefnogi cynnydd yn y cyfraddau fesul awr a delir i ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant o fis Ebrill 2025 i £6.40 yr awr.<br>Sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu'r gyfradd hon yn flynyddol o hyn ymlaen. |

| | |
|---|---|
| Ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>(Nodwn yn yr ymateb i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 eich bod wedi dweud y "bydd gwaith ehangu parhaus y tu hwnt i 2025-26 yn dibynnu ar b'un a fydd rhagor o gyllid ar gael yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a gallu'r sector i ymateb i ofynion proses ehangu bellach.") | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2026-27<br><br>- Y ganran o blant 2 oed sy'n cael cynnig ac yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg 12.5 awr yn ôl awdurdod lleol.<br>- Cadarnhad bod y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2026-27 yn cynnwys cyllid ar gyfer Gofal Plant Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed. |
| Dechrau'n Deg (y pedwar hawl). | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26 (refeniw a chyfalaf). |

## 4. Gofal cymdeithasol plant

Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant

Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â chymorth ychwanegol i awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, megis cyfraddau swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth.

Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc os gwnaed dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2026-27.

Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal

Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Gronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal ac a yw'r Gronfa wedi dod i ben yn y flwyddyn gyfredol.

## 5. Iechyd plant

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

- Mynd i'r afael ag amseroedd aros pediatrig y GIG
- Gwella iechyd deintyddol plant
- Strategaeth gordewdra, gan gynnwys tystiolaeth o ddull cydgysylltiedig, trawslywodraethol o fynd i'r afael â phenderfynyddion gordewdra
- Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys:

- gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed
- cymorth iechyd meddwl brys gan gynnwys GIG Cymru 111 pwyso 2 a datblygu canolfannau iechyd meddwl/gwasanaethau noddfa
- gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a'r berthynas rhwng rhieni a babanod
- gwasanaethau anhwylderau bwyta

- Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol
- Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu
- Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fêpio ymhlith plant a phobl ifanc

## 6. Newidiadau i gostau byw ac Yswiriant Gwladol

Sylwebaeth gyffredinol am effaith costau byw ar y canlynol:

- Byrddau iechyd: darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.
- Gwasanaethau cymdeithasol: darparu holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.
- Tlodi plant: manylion am ba drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda chydweithwyr perthnasol eraill yn y cabinet, mewn perthynas â dyraniadau a gaiff effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach fel tlodi plant.
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol: diweddariad i'r wybodaeth a ddarperir ar dudalennau 10 ac 11 o'ch ymateb i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26. I gynnwys sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu newidiadau yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a'ch asesiad o effaith hyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal i blant a phobl ifanc.

## 7. Costau deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r portffolio.

- Costau gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

- Goblygiadau ariannol neu a ragwelir o unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o fewn y portffolio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU, gan gynnwys Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion.

**Y Pwyllgor Deisebau**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Copi at: Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

23 Gorffennaf 2025

Annwyl Weinidog,

**Deiseb P-06-1530 Achub Darpariaeth Gofal Plant yng Nghymru - Galw am gyllido teg a phroses deg i ddarparwyr a rhieni**

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 14 Gorffennaf a bu'n trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Lisa Owen.

Cytunodd yr Aelodau y byddwn yn ysgrifennu atoch i dynnu sylw at sylwadau'r deisebydd a cheisio ymateb iddynt. Caiff y ddeiseb ei chadw ar agor wrth ddisgwyl eich ymateb. Nodwyd hefyd fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi gwneud llawer o waith ar y mater hwn a chytunwyd i dynnu sylw'r Pwyllgor hwnnw at farn y deisebydd hefyd er gwybodaeth – mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1530 Achub Darpariaeth Gofal Plant yng Nghymru - Galw am gyllido teg a phroses deg i ddarparwyr a rhieni

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ymateb drwy e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**P-06-1530 Save Childcare Provision in Wales – Demand Fair Funding and a Fair Process for Providers and Parents - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 04 July 2025**

Dear Petitions Committee

It was extremely disappointing to read the Minister's response as it is the same response we were originally given by the Childcare Offer team 6 months ago, so it appears that despite the information passed on from us through letters, via CWLWM and FSB (Federation of Small Business), nothing has been heard.

Funding Schemes which are Education, Childcare Offer and now the new Flying Start scheme are between Welsh Government and the Parent, so why are the childcare providers having to fund the difference between the rate Welsh Government have decided and the rate the setting needs to charge to be sustainable. If the parent chooses to pick a larger setting with extra facilities and therefore larger overheads instead of a childminder operating from their home or a playgroup that rents a hall, then they should pay the difference, which is as it has always been, simply parental choice.
Please note, we are not asking for an increased rate but for Welsh Government to give us back our businesses by allowing us to charge shortfalls if required, so we can protect the longevity of the business and the future jobs of our teams. We want them to engage with us about the sector because as the group of Child Care Providers that have come together trying to protect their businesses, has grown, we are finding more and more discrepancies in how funding is rolled out throughout Wales in the Child Care sector, but I know we are here to address the issue about the Fixed Rate and the refusal to allow us to charge the shortfall.

I have put the Ministers response in red and addressed it individually

We know that affordable, available and accessible childcare enables parents to work. Our Childcare Offer supports our drive to increase economic growth, by supporting low-income parents, particularly mothers back into the workplace or to increase their hours of work. This assists our efforts to tackle poverty and reduce inequalities.

While it's is appreciated that the Childcare Offer is to help parents to get parents back into work, in reality parents will have already gone back to work and have been paying our rate for at least a year when their child becomes eligible. From experience then these parents simply increase the number of hours their child attends. I completely support the fact that all parents should have support towards childcare, but I should not be expected to subsidise this through my income and at the risk of losing my business. How will it help the 200+ parents of my 100 children when I have to close my doors due to the losses incurred?

Since the introduction of Education hours, Childcare providers have been expected to implement these schemes and subsidise the difference in the rate that was offered and the rate we need to charge. There have not been many of settings that have chosen to provide the 10- 12.5 hours (depending where you are) of Education due to the extra staff you need to complete assessments, cover extra training and complete paperwork that is required. We factor those losses in when doing our financial forecasts. However with the introduction of

the Childcare Offer this now means the losses per child per hour increase from 10 – 30. 3 year old groups are quite large and generally 50% of your business.

I appreciate the support from childcare providers who choose to participate in our government-funded childcare programs. Although these schemes are voluntary, I respect and appreciate the vital role these providers play in offering accessible childcare to parents in Wales.

Mae ein safbwyntiau manwl – a'r rhesymau drostynt – wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Hyderwn y byddwch yn rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt. Rydym yn sylweddoli bod llawer o'r hyn a gwmpesir yn faterion a gadwyd yn ôl, ond cymaint yw'r goblygiadau posibl i Gymru fel ein bod yn disgwyl i Lywodraeth y DU dalu sylw i'r hyn a ddywedwn – yn ogystal â'r hyn y mae eraill yn ei ddweud – wrth iddi ddatblygu polisi, ac fel rhan o'i hymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd.[4]

Dyma ddiolch ichi ymlaen llaw am ystyried y materion hyn. Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

**Jenny Rathbone AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Welsh Parliament

Copi at:

Jane Hutt AS CBE, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Phrif Chwip, Llywodraeth Cymru

Y Gwir Anrh. Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Debbie Abrahams AS, Cadeirydd, Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau, Tŷ'r Cyffredin

Collette Stevenson ASA, Cynullydd, Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol a Nawdd Cymdeithasol, Senedd yr Alban

Colm Gildernew ACD, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cynulliad Gogledd Iwerddon

---

[4] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Pathways to Work: Reforming Benefits and Support to Get Britain Working Green Paper, 18 Mawrth 2025

# Atodiad A: Barn fanwl y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Senedd Cymru

## Cefndir

**1.** Dyma ddatgan ein barn ar y diwygiadau fel y'u nodir yn natganiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 18 Mawrth 2025, a'r Papur Gwyrdd.[5] Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u llywio gan ein hymchwiliad a'n hadroddiad ar y bwlch cyflogaeth i bobl anabl, a ffynonellau eraill y cyfeirir atynt lle bo'n berthnasol.[6]

## Cefnogi pobl anabl i mewn i fyd gwaith

**2.** O'r dechrau'n deg, rydym o'r farn ei bod yn bwysig pwysleisio ein bod yn rhannu nod datganedig Llywodraeth y DU o gefnogi pobl sy'n gallu gweithio i wneud hynny, fel y pwysleisir yn ein hadroddiad. Fodd bynnag, teimlwn yn gryf fod yn rhaid i'r DWP, ochr yn ochr â chyflogwyr, a haenau eraill o lywodraeth, weithio'n llawer caletach i roi trefn ar bethau cyn i ddiwygiadau lles gael eu rhoi ar waith. Mae hyn yn golygu cymryd camau brys i flaenoriaethu – a gwella'n radical – y gefnogaeth sydd ar gael gan y llywodraeth a chyflogwyr i alluogi pobl anabl i ennill a chadw cyfleoedd cyflogaeth, cyn dileu hawliau i gymorth lles.

**3.** Mae ein hadroddiad yn datgelu'n blaen y rhwystrau sylweddol y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyflogaeth. Mae'r canlynol ymhlith y cyfryw rwystrau:

- **Agweddau cyflogwyr:** Canfyddom gamdybiaethau eang ac agweddau negyddol tuag at gyflogi pobl anabl. Nid yw rôl ac effaith niweidiol y rhain yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn niwygiadau Llywodraeth y DU, ac fe fyddem yn croesawu mwy o bwyslais, a dull mwy cadarn o'u herio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac ar bob lefel o lywodraeth.
- **Dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:** Mae ein hadroddiad yn awgrymu bod ymwybyddiaeth cyflogwyr o ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb – a chydymffurfiaeth â nhw – yn annerbyniol o isel. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i wneud addasiadau rhesymol. Yn syfrdanol, awgrymodd arolwg ar ran y Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol (neu PFRC) ym Mhrifysgol Bryste, ynghyd ag RNIB Cymru, fod gan dros chwarter o bobl anabl – 26% –

---

[5] Hansard, Cyfrol 764. Welfare Reform, dydd Mawrth 18 Mawrth 2025; yr Adran Gwaith a Phensiynau, Pathways to Work: Reforming Benefits and Support to Get Britain Working Green Paper, 18 Mawrth 2025

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Os yw'r gefnogaeth yn gywir, amdani!', 6 Mawrth 2025

gyflogwyr a oedd wedi methu â gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer.[7] Mae angen gwneud llawer mwy i hyrwyddo a gorfodi canllawiau ynghylch y dyletswyddau cyfreithiol hyn, ac i hyrwyddo manteision gweithio hyblyg a hybrid.

- Diffygion yng nghynlluniau cymorth Llywodraeth y DU: Mae ein hadroddiad yn amlygu problemau helaeth gyda'r cynllun Hyderus o ran Anabledd. Digon gwan yw enw da Hyderus o ran Anabledd, a'r gred gyffredin yw nad oes ganddo achrediad cadarn, yn enwedig ar lefelau is. Fe wnaethom ohirio rhag mynegi barn ynghylch a all y cynllun wella ei hygrededd a darparu manteision pendant, ond mae angen diwygio hyn ar frys yn y cyfamser.

**4.** Yng Nghymru, mae'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl yn amrywio'n sylweddol o 11.6% ym Mro Morganwg i 42.6% yng Nghastell-nedd Port Talbot.[8] Fel y nodwyd yn y Papur Gwyrdd, mae ymchwil wedi canfod y gallai cymaint â 200,000 o bobl sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd ledled Prydain Fawr fod mewn gwaith ar hyn o bryd, o gael y gefnogaeth gywir, ac mae dros filiwn o'r farn y gallent weithio yn y dyfodol pe bai eu hiechyd yn gwella.[9] Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod cyflogwyr a gweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb cyn gwneud ymdrechion i gefnogi unigolion i mewn i fyd gwaith.

**5.** **Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â'r rhwystrau penodol y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyflogaeth, a nodwyd yn ein hadroddiad, ac yr ydym wedi'u hamlygu'n benodol yn y cyflwyniad hwn. Rhaid i Lywodraeth y DU nodi'n fanylach sut y mae'n bwriadu gweithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â hyn, cyn y dylid ystyried newidiadau i gymhwysedd a lefel y gefnogaeth y mae pobl anabl yn ei chael.**

**6.** Ar ben hynny, mae gan y DWP hanes gwael o ran ei pherfformiad yn y maes hwn. Tynnodd ein hadroddiad sylw at y ffaith bod y cynllun Mynediad at Waith yn profi oedi hir o hyd at 20 wythnos, ar hyn o bryd.[10]

**7.** Ymhlith y newidiadau a gyhoeddwyd i gefnogaeth i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, mae £1 biliwn o gyllid newydd tuag at sicrhau cefnogaeth i unrhyw un sydd eisiau help i fynd i mewn i fyd gwaith, neu ddychwelyd iddo. Yn yr un modd, mae yna bwyslais cadarnhaol ar ymyrraeth gynnar, a chyflwyno disgwyliad y bydd angen i'r

---

[7] Ffigurau a ddarparwyd gan PFRC ac RNIB Cymru yn eu cyflwyniadau ysgrifenedig, cyfeiriwch at y rhain am fanylion llawn gan gynnwys ffynonellau a methodoleg: DE03 – Prifysgol Bryste, DE24 – RNIB Cymru

[8] Ffigurau a gymerwyd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol arolwg o statws pobl anabl yn y farchnad lafur LMS008

[9] Llywodraeth y DU, Work aspirations and support needs of health and disability customers, 6 Chwefror 2025

[10] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Os yw'r gefnogaeth yn gywir, amdani!: 6 Mawrth 2025

rhan fwyaf o bobl sy’n cael elfen iechyd Credyd Cynhwysol, ar y lleiaf i drafod anghenion a nodau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt yn rheolaidd. Dyma groesawu'r ddau fesur hyn. Fodd bynnag, nodwn ei bod yn debygol y bydd y rhain yn cymryd sawl blwyddyn i'w rhoi ar waith yn llawn, gydag amserlenni'n awgrymu targed o 2029-30 cyn cyflawni hynny.

**8.** Rydym yn croesawu'r £10 miliwn a ddyrannwyd yn ddiweddar i Gymru ar gyfer yr arloeswr anweithgarwch economaidd, a fydd yn darparu cymorth wedi'i deilwra gyda'r nod o helpu pobl economaidd anweithgar ym Mlaenau Gwent, Sir Ddinbych a Chastell-nedd Port Talbot, i gael cyflogaeth.[11] Nodwn y rôl fydd gan Lywodraeth Cymru yn y gwaith arloesol, ochr yn ochr ag arweinwyr lleol, a gobeithiwn y bydd y Senedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hyn.

**9.** At hynny, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth y DU, ar hyn o bryd, yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch datganoli cymorth cyflogaeth nad yw'n rhan o'r Ganolfan Byd Gwaith, i Gymru. Cyn belled â bod digon o gyllid ynghlwm wrth hynny, bydd yn cynnig cyfleoedd i gefnogi pobl anabl – yn ogystal â phobl ddi-waith ac economaidd anweithredol eraill – i gael cyflogaeth mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion cymunedau Cymru. Byddem yn croesawu diweddariad ar y cynigion hyn.

## Hyblygrwydd ac asesu

**10.** Fel mae ein hadroddiad yn ei nodi, mae hyblygrwydd yn allweddol i gefnogi pobl anabl i sicrhau cyflogaeth, a’i chadw. Rydym, felly, yn croesawu’r cynnig a gynlluniwyd i alluogi pobl anabl, a phobl â chyflyrau iechyd, i gynnig am swydd heb golli eu hawliau, ac i'r hawliau hynny gael eu hymgorffori yn y gyfraith.

**11.** Nodwn y gallai cynigion i uno'r Asesiadau Gallu i Weithio ac asesiadau ar gyfer Taliadau Annibyniaeth Personol (neu PIP) helpu i ostwng achosion o gymhlethdod a dyblygu yn y system. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar bobl anabl gan elusennau fel Scope.[12] At hynny, rydym yn cefnogi ailddechrau a chynyddu asesiadau wyneb yn wyneb, a'r ymrwymiad na fydd y rheini sydd â'r cyflyrau iechyd gydol oes, mwyaf difrifol, yn wynebu ailasesiad ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

## Newidiadau i Daliadau Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol

**12.** Rhagwelir y bydd y cynigion i leihau'r gyfradd a'r hawl i elfen iechyd y Credyd Cynhwysol, a newidiadau i gymhwysedd ar gyfer PIP, yn cael effaith sylweddol ar y rheini sy’n eu cael ar hyn o bryd, a’r rheini fydd yn eu cael yn y dyfodol. Yn ôl Sefydliad

[11] Llywodraeth y DU, £10 million boost to employment support in Wales to Get Britain Working again, 23 Ebrill 2025

[12] Scope, Changes to disability benefits: what you need to know | Elusen anableddau Scope UK

Bevan, mae cymaint â 275,000 o bobl yng Nghymru sy’n cael PIP a 110,000 o bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol ac sydd â gallu cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau sy’n gysylltiedig â gwaith (neu LCWRA).[13] Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau hyn yn gyflym, gyda newidiadau i PIP a Chredyd Cynhwysol wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Awst a mis Tachwedd 2026, yn y drefn honno.

**13.** Nid ydym yn cefnogi'r amserlen hon nes bod cynnydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n cyfrannu at y bwlch cyflogaeth i bobl anabl, gyda thystiolaeth bod cefnogaeth gynhwysfawr ar waith. Mae dull o'r fath yn peri risg o godi'r angor cyn gwirio'r hwyliau, ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i ailystyried amseriad a dilyniant y newidiadau hyn. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth y DU ystyried naill ai:

a. gohirio'r newidiadau i elfen iechyd Credyd Cynhwysol, hyd nes bod cymorth priodol ar waith; neu,

b. dylunio trefniadau trosglwyddo cadarn sy'n sicrhau nad oes unrhyw un sy'n cael y taliadau yma ar hyn o bryd yn wynebu colled sydyn, dros nos, mewn incwm.

## Yr achos dros ddiwygio

**14.** Rydym yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi bod – dros 45% ers 2018/19 – yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gyda 9.3 miliwn o bobl yn economaidd anweithredol – 2.8 miliwn ohonynt wedi'u dosbarthu fel rhai â salwch hirdymor – mae gan y DU rai o'r cyfraddau uchaf o blith unrhyw un o economïau blaenllaw G7 y byd.[14]

**15.** Mae'r Papur Gwyrdd yn dadlau bod lefel y gwariant ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn profi bod y DU yn ‘allanolyn’, a bod yn rhaid gosod gwariant ar lwybr mwy cynaliadwy. Dyma gytuno bod angen cymryd camau mewn achosion lle mae tystiolaeth o gymhellion gwyrdroëdig yn y system bresennol. Fodd bynnag, er bod effaith ffactorau eraill, megis amseroedd aros y GIG, yn cael ei chydnabod, mae yna risg nad yw'r cynigion presennol yn ystyried y cymhlethdodau o ran y cynnydd parhaus yn nifer y bobl sy'n hawlio. I bob golwg, mae rhai o'r newidiadau, fel y'u hamlygwyd gan y Resolution Foundation, wedi'u cynllunio'n bennaf i arbed arian ac er mwyn helpu i fodloni rheolau cyllidol, yn hytrach nag am resymau egwyddorol.[15]

**16.** Rydym yn cydnabod yr angen i leihau diffygion posibl yn y system sy'n creu cymhellion gwyrdroëdig, neu sydd â chanlyniadau anfwriadol. Nodwn ddadl

---

[13] Sefydliad Bevan, ymateb Sefydliad Bevan i’r Papur Gwyrdd ar fudd-daliadau, Mawrth 2025

[14] Ystadegau Marchnad Lafur y Swyddfa Ystadegau Gwladol LFS: Anweithgar yn economaidd: Y Deyrnas Unedig: Pawb: 16-64 oed;

[15] Resolution Foundation, A dangerous road? Examining the ‘Pathways to Work’ Green Paper, 19 Mawrth 2025

Llywodraeth y DU y gallai'r anghydbwysedd rhwng y Credyd Cynhwysol ar y gyfradd safonol a'r cyfraddau LCWRA fod yn enghraifft o'r hyn sydd angen mynd i'r afael â hi. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r honiadau gan rai bod y newidiadau i gymhwysedd Credyd Cynhwysol a PIP i'w gweld wedi'u cynllunio'n bennaf i arbed arian. O ystyried yr effaith bosibl ar unigolion a chymunedau yng Nghymru, dyma alw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod gwariant ar fudd-daliadau anabledd yn cael ei bennu gan lefel yr angen, ac nid gan awydd i gyrraedd targedau cyllidol.

## Effaith net ar Gymru

**17.** Mae asesiadau effaith sydd ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, yn annigonol ac yn brin o fanylion. Gallwn dybio y bydd toriadau i fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn anghymesur yng Nghymru, o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau. Eto i gyd, yr unig asesiad effaith swyddogol sydd ar gael i'r cyhoedd, yw un ar sail Cymru a Lloegr.

**18.** Gwyddom fod poblogaeth Cymru, yn gyffredinol, yn hŷn, yn fwy gwledig ac yn dioddef mwy o afiechyd na rhannau eraill o'r DU ar gyfartaledd. Gadawodd pwysigrwydd hanesyddol mwyngloddio a diwydiannau trwm eraill – cyfoeth a olygai fod y DU gyfan ar ei hennill – etifeddiaeth o amddifadedd, afiechyd a dibyniaeth ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd uwch na rhannau eraill o'r DU. Mae trosglwyddiadau cyllidol ar ffurf taliadau lles yn chwarae rhan bwysig wrth liniaru effaith yr etifeddiaeth hon a'r cyfraddau uchel o anghydraddoldeb sy'n bodoli yn y DU. Yn gyffredinol, gwyddom fod cyfradd yr hawlwyr yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr (wedi'i chyfrifo i fod tua 11% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru o'i gymharu â 7% yn Lloegr). [16]

**19.** Er nad yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi asesiad effaith ar gyfer Cymru eto, mae dadansoddiad gan randdeiliaid yn dangos yn glir effeithiau posibl y diwygiadau arfaethedig ar Gymru. Mae Policy in Practice yn awgrymu y byddant yn taro Cymru a gogledd-ddwyrain Lloegr galetaf. Mae'n amcangyfrif y bydd bron i 190,000 o bobl yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau, gydag effaith ariannol bosibl o £470 miliwn. Yn ôl eu dadansoddiad mae pedwar o'r 10 awdurdod lleol yr effeithiwyd arnynt waethaf ym Mhrydain Fawr yng Nghymru: Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili.[17] Mae dadansoddiad o etholaethau gan Sefydliad Joseph Rowntree yn cyd-fynd â'r casgliadau hyn, gan dynnu sylw at y ffaith bod bron i 20% o'r

---

[16] Canolfan Llywodraethiant Cymru, Datganiad y Gwanwyn 2025 – y goblygiadau i Gymru, 27 Mawrth 2025

[17] Policy in Practice, New analysis: How disability benefits changes will affect your local area, 24 Ebrill 2025

boblogaeth oedran gweithio yn derbyn naill ai PIP neu'r LCWRA yn etholaethau Blaenau Gwent, Aberafan Maesteg, a Rhondda ac Ogwr.[18]

**20.** O ystyried y canfyddiadau hyn, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn rhoi eglurder ynghylch sut y mae'n rhagweld y bydd Cymru'n cael ei heffeithio. Er mwyn llywio llunwyr polisi a'r ddadl gyhoeddus ynghylch y newidiadau hyn, mae'n hanfodol eich bod yn cyhoeddi asesiad effaith dadgyfunedig ar gyfer Cymru. Mae methu â gwneud hynny'n tanseilio ysbryd y Concordat rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru.[19] At hynny, bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall yr effeithiau canlyniadol posibl. Un enghraifft o'r fath fyddai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy fformiwla Barnett. Rydym yn pryderu ynghylch y posibilrwydd y bydd toriadau i'r gyllideb lles yn disgyn yn anghymesur ar Gymru, gyda hynny yn ei dro yn arwain at alw cynyddol ar y gwasanaethau a ariennir yn ôl fformiwla sy'n cael ei hystyried, yn eang, yn ddiffygiol. Gyda'r dull hwnnw, i bob tebyg bydd perygl o waethygu'r anghydraddoldebau rhwng y cenhedloedd ymhellach, a gwreiddio anghydraddoldeb yn y rhannau tlotaf.

## Effaith ar blant a phobl ifanc

**21.** Mae'r effaith ar blant, pobl ifanc, a thlodi plant wedi bod yn ystyriaethau pwysig yn ein gwaith yn y Senedd hon. Nodwn gyda phryder, felly, y cynigion i ddod â thaliadau Credyd Cynhwysol sy'n gysylltiedig ag iechyd i ben yn gyfan gwbl i'r rheini o dan 22 oed. Yn ôl y Resolution Foundation, mae'r risgiau i safonau byw'r bobl ifanc hyn yn ddifrifol, gan fod pobl o dan 25 oed eisoes yn derbyn cyfraddau is o Gredyd Cynhwysol nag oedolion hŷn. [20]

**22.** Mae'n hanfodol bod pobl ifanc sy'n pontio o fyd addysg i fyd gwaith yn cael digon o gefnogaeth. Canfu ein hadroddiad, fodd bynnag, dystiolaeth o loteri cod post. Mae'r ehangu arfaethedig o gefnogaeth a ddarperir gan y Warant Ieuenctid (yn Lloegr) wedi'i amlygu fel y gwrthbwys i'r cynnig i dorri'r Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am gydlynu effeithiol â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod adnoddau wedi'u halinio'n gywir. Mae goblygiadau posibl y newid hwn yn destun pryder inni, a disgwyliwn i Lywodraeth y DU ddarparu llawer mwy o fanylion am y goblygiadau posibl i Gymru cyn bwrw ymlaen.

**23.** Os caiff yr holl doriadau a gyhoeddwyd eu rhoi ar waith, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi amcangyfrif gostyngiad o £4.8 biliwn mewn gwariant lles

[18] Sefydliad Joseph Rowntree, PIP & LCWRA Constituency Map, 16 Ebrill 2025

[19] Llywodraeth Cymru, Concordat rhwng Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a'r Llywodraeth Cymru, 24 Chwefror 2025

[20] Resolution Foundation, A dangerous road? Examining the 'Pathways to Work' Green Paper, 19 Mawrth 2025

erbyn 2029-30.[21] Yn ôl yr asesiad effaith, bydd effaith net y diwygiadau hyn yn golygu y bydd 250,000 o bobl eraill, gan gynnwys 50,000 o blant, yn syrthio i dlodi cymharol.[22] At hynny, rydym yn pryderu o glywed adroddiadau bod dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau yn canfod y bydd 700,000 o aelwydydd pellach, sydd eisoes yn byw mewn tlodi cymharol, hefyd yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y diwygiadau hyn.[23]

**24.** *Mae ein pryderon ynghylch y newidiadau hyn mewn perthynas â phlant, a lefelau tlodi plant, yn arbennig o ddwys. Nid oes gan blant unrhyw reolaeth dros eu hamgylchiadau ac nid oes ganddynt unrhyw fodd o wella eu sefyllfa. Mae mwy o blant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi yn y DU nag unrhyw grŵp oedran arall.[24] Rydym yn cydnabod yr angen i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc, a'r effeithiau sydd, o bosibl, yn gadael eu hôl. Rydym am weld pob plentyn a pherson ifanc yn cyflawni eu potensial. Fodd bynnag, mae'n destun pryder inni y bydd y nodau hyn yn cael eu tanseilio pe bydd cyfraddau tlodi plant yn parhau i gynyddu fel yr awgrymwyd, o ganlyniad i'r newidiadau polisi hyn. Rydym, felly, yn annog Llywodraeth y DU i feddwl yn ofalus am effaith y newidiadau polisi hyn ar blant a phobl ifanc yn benodol.*

**25.** *Wrth ddod i gasgliad, nodwn y dadansoddiad sy'n awgrymu mai Cymru (ochr yn ochr â gogledd-ddwyrain Lloegr) fydd yn cael ei tharo galetaf gan y diwygiadau hyn. Yn unol â'r Concordat Rhynglywodraethol, dyma alw ar Lywodraeth y DU i gynhyrchu a chyhoeddi asesiad effaith penodol i Gymru, o'r newidiadau arfaethedig a chynlluniedig i'r system lles a budd-daliadau, ar frys ac i rannu hyn gyda'r Pwyllgor yn ei ymateb i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu ymateb o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y llythyr hwn.*

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Welsh Parliament

Mai 2025

[21] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon economaidd a chyllidol, Mawrth 2025

[22] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Datganiad y Gwanwyn 2025 diwygiadau budd-daliadau iechyd ac anabledd – effeithiau

[23] The Guardian, Disability benefit cuts to hit 700,000 families already in poverty, DWP forecasts show, 7 Mai 2025

[24] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Poverty in the UK: Statistics, Ebrill 2025

**07/08/25-Email from Maisie Chatfield (National Energy Action) to Rhys Morgan**

Dear Rhys,

New official estimates from Welsh government published today reveal **that one quarter of all households in Wales (340,000) were in fuel poverty in October 2024**. These are households unable to keep their home warm at any reasonable cost, needing to spend more than 10% of their income to adequately heat their home. In addition to this, 63,000 households were estimated to be living in severe fuel poverty, equivalent to 5% of households.

In 2024/25, the average household energy bill based on standard energy consumption was estimated to be £1,850. This is 37% higher than 2021/22, when the average household bill was £1,360. The Welsh government will publish detailed analysis in October (including comparisons with other UK nations, trends over time, fuel poverty by household and dwelling characteristics, and a more detailed discussion on the factors that drive fuel poverty).

In response, National Energy Action Head of Wales Ben Saltmarsh says, *'Fuel poverty has deepened dramatically in recent years. Too many are living in cold homes, rationing essentials, and mired in debt – with grave physical and mental health consequences. Children are growing up in conditions that can damage their life chances for decades.*

*'Paying over £1,700 a year for a basic utility isn't normal – and in many parts of Wales it's even higher, since north Wales faces the highest energy costs in GB and south Wales is not far behind. With some of the oldest and least efficient housing in northern Europe, keeping warm at home is simply unaffordable for hundreds of thousands.*

*'Ahead of the 2026 Senedd election, today's figures lay bare the scale of the challenge – but also the opportunity. With significant expected consequential funding from the UK government's Warm Homes Plan, all political parties in Wales must commit to considerably increasing investment in energy efficiency should they form the next Welsh government. We can – and must – make the homes of those most in need warmer, greener, and healthier places to live.'*

National Energy Action also recommends:

- The next Welsh government maintains the provision of emergency crisis support, including help to top up prepayment meters and purchase off-gas fuel such as oil and LPG.

- The UK government provides deeper energy bill support in future for people who cannot afford a warm and healthy home.
- The energy regulator, Ofgem, supports low-income and vulnerable households to help repay their energy debt. Much of this debt was accrued during the height of the energy crisis and has no realistic chance of being repaid without support.

The full press release can be found here.

If you have any questions or would like to discuss this further, please do get in touch.

Cofion cynnes,

**Maisie Chatfield**

**Jane Hutt AS/MS**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JH/1886/25

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Awst 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod Trosglwyddiad Cyllideb wedi'i gytuno rhwng Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i gefnogi gweithgarwch cynhwysiant digidol yng Nghymru.


Mae'r cyllid yn cynnwys £185,418 (refeniw) a £254,950 (cyfalaf) a fydd yn datblygu ein gwaith yn ymwneud â Chenhadaeth 2 y Strategaeth Ddigidol i Gymru, a Dangosydd Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 'Statws cynhwysiant digidol'.

Mae'r cyllid hwn ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026 yn unig.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r dysgu a'r arferion gorau o ran sut y defnyddir y cyllid i gefnogi cynhwysiant digidol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau mewn deialog agored â Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig ar ddulliau o fynd i'r afael ag allgáu digidol a gwaith sy'n ymwneud â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, a chadeiryddion y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ministry of Justice

**Lord Timpson**
Minister of State for Justice

Jenny Rathbone MS
Equality and Social Justice committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** ADR126281

20 August 2025

**Criminal Justice in Wales**

Dear Jenny,

Thank you for your letter on 1st August 2025 with additional questions on behalf of the Equality and Social Justice committee. The UK Government is committed to working with the Welsh Government on justice matters and I am happy to provide the following information.

1. *As HMP Berwyn was designed as a rehabilitation-focused prison, what are the main barriers preventing it from delivering on that vision—particularly in terms of education, purposeful activity, and stability— and what steps are being taken to address them?*

Stability within a prison is a key enabler of a rehabilitative regime. Recent population pressures across the prison estate have meant that the population at HMP Berwyn has been changed to support the national estates demand for prison places.

His Majesty's Independent Inspectorate of Prisons (HMIP) report of HMP Berwyn published in May 2025 highlighted a number of areas of positive practice, including the prison's "bright and welcoming wellbeing hub for learners" where "prisoners benefited from and valued these facilities for education and work" as well as noting that the "vocational learning workshops were of exceptional quality….they provided industry-standard environments for learners to develop valuable skills and accreditations, for example in construction workshops, a training kitchen, barber shop, warehousing and logistics."

The Inspectorate also noted that "a wide range of organisations were located together in an impressive resettlement hub, which enabled effective communication and joint working. Prisoners could attend the hub to discuss their resettlement plans as they prepared to return to the community." However, it is recognised that further improvements could be made, as detailed in HMP Berwyn's recently published action plan in response to HMIP recommendations. The following progress has already been made:

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753
**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

-

- Education and Workshop provisions in HMP Berwyn have been reviewed to ensure that each is being maximised to its full potential.
- Ongoing stakeholder engagement with businesses in the community to develop further opportunities for prisoners to engage in activity that supports the local labour market and provides skills needed to gain employment upon release.

Additionally, a new Governor has been appointed to HMP Berwyn who will bring great value to the prison and the management team as well as oversee progression of the HMIP action plan.

2. *Please can you confirm how many of the 1,300 Probation Officers employed in a recent recruitment drive were recruited into Welsh prisons?*

Over the last 4 years, 4,632 trainee Probation Officers (known as PQiPs – Professional Qualification in Probation) have started since Probation unified in June 2021; of which 315 have been allocated to Wales. These trainees become Probation Officers after qualification. Some are placed in prisons, but the majority are allocated to Probation Delivery Units in the community. A Breakdown of this is shared below.

| | National | Wales |
|---|---|---|
| 2021/22 | 1518 | 145 |
| 2022/23 | 1514 | 127 |
| 2023/24 | 543 | 10 |
| 2024/25 | 1057 | 33 |

Allocation of trainees in Wales has been based on vacancies and expected demand; to note, Wales has traditionally not been carrying a high level of vacancies in Probation Officer roles.

In addition, as you rightly note, we have made a ministerial commitment to onboard 1,300 PQiPs this financial year, these will be recruited in two cohorts (commencing September 2025 and March 2026). This recruitment activity is ongoing and PQiPs are allocated based on business and operational need, taking into consideration the candidate’s preference.

3. *Please can you provide data on re-offending by prisoners with home postcodes in Wales – including, where possible, a breakdown of Welsh prisoners serving/having served sentences outside Wales?*

Data regarding reoffending rates for individuals released from custody who held a Welsh postcode at the time of their most recent conviction has been requested and will be produced as an ad-hoc statistical table by 1st September 2025.

Data availability does not allow for the further breakdown requested. I will ensure that officials share the data with the Committee when released.

I hope this information assists the Committee and should you require any further information then please do let us know.

Your sincerely,



**Lord Timpson**
**Minister for Prisons, Probation and Reducing Reoffending**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Lord Timpson
Minister of State for Prisons
Ministry of Justice

1 August 2025

Dear Lord Timpson,

Criminal Justice in Wales

Many thanks to you and Ian Barrow for your appearance at the Equality and Social Justice Committee on 14 July. Members of the Committee were most appreciative of your time and the information you were able to share with us.

We will be considering our next steps in terms of scrutiny of the progress being made on improving the effectiveness and value for money of criminal justice in Wales in the autumn. In the meantime, the Committee would be grateful if you could please provide the following additional information:

1. As HMP Berwyn was designed as a rehabilitation-focused prison, what are the main barriers preventing it from delivering on that vision—particularly in terms of education, purposeful activity, and stability—and what steps are being taken to address them?

2. Please can you confirm how many of the 1,300 Probation Officers employed in a recent recruitment drive were recruited into Welsh prisons?

3. Please can you provide data on re-offending by prisoners with home postcodes in Wales – including, where possible, a breakdown of Welsh prisoners serving/having served sentences outside Wales?

I would welcome a response within the usual timescales.

Yours sincerely,

Jenny Rathbone MS

Chair of the Equality and Social Justice Committee

CC:

Jane Hutt MS CBE, Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip, Welsh Government

Ruth Jones MP, Chair of the Welsh Affairs Select Committee, House of Commons

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/413/25

Jenny Rathbone AS
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

26 Awst 2025

Annwyl Jenny,

Roeddwn yn falch o fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 14 Gorffennaf 2025 yn edrych ar Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn diolch am eich dymuniadau da.

Rydym yn croesawu eich cwestiynau ac mae ein hymatebion isod.

**Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet**

1. **A fydd mapio costau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol yn cynnwys dadansoddiad fesul math o wasanaeth ac ardal ddaearyddol yng Nghymru, a sut y gallai'r data hwnnw lywio penderfyniadau ariannu neu drafodaethau datganoli yn y dyfodol?**

Mae nodi gwariant sy’n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol yng Nghymru yn gymhleth, ac mae gwahanol elfennau o hyn yn cael eu datblygu a’u rhoi ar waith mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn Llywodraeth Cymru yn torri ar draws portffolios, ac yn cael ei ddyrannu o nifer o linellau gwariant yn y gyllideb (BELs) ar draws gwahanol Brif Grwpiau Gwariant (MEGs). Mewn llawer o achosion, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gostau staff na chaiff eu hamser ei rannu'n union rhwng gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gweithgarwch arall, neu ragolygon gwariant na ellir eu dadgyfuno yn y modd hwn. Felly, nid yw lefel y manylder ynghylch dyraniadau’r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy’n gysylltiedig â chyfiawnder yn mynd y tu hwnt i lefel BEL.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi sôn am y mater hwn mewn gohebiaeth ar gyllidebau blaenorol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad yn ystod proses y gyllideb flynyddol. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor hwnnw yn cynnwys BELs a oedd dim ond yn cyflawni'n rhannol weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder.

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, roeddem wedi ceisio gwella eglurder y gwariant drwy ddarparu naratif a oedd yn gysylltiedig â llinellau'r gyllideb, er mwyn dangos pa weithgareddau o dan y BEL honno sy'n cyfrannu at gyfiawnder. Fodd bynnag, i raddau cyfyngedig yn unig y gellid egluro cwantwm cyffredinol y gwariant ar weithgarwch sy’n gysylltiedig â chyfiawnder o fewn BEL benodol drwy naratif.

Mae gwahanol heriau yn codi wrth fapio gwariant sy’n gysylltiedig â chyfiawnder a gedwir yn ôl, gan gynnwys nad ein data ni yw hyn i'w mapio. Yn hytrach, mae'n cael eu dal gan sawl sefydliad fel y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a Thrysorlys y DU. Mae mapio gwariant yn cael ei gymhlethu ymhellach gan fodel cyflawni Cymru a Lloegr sy'n gallu gwneud lleoliad daearyddol y gwariant yn anhysbys. Felly, mae angen blaenoriaethu meysydd penodol ar gyfer y gwaith mapio hwn.

Er enghraifft, rydym yn cymryd camau gweithredol i fapio gwariant datganoledig a gwariant a gedwir yn ôl ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol, fel rhan o'n gwaith paratoi i hwyluso datganoli cyfiawnder ieuenctid. Eitem gyntaf rhaglen waith ein Rhaglen Ymchwil ar Gyfiawnder yw sefydlu'r gwahanol ffrydiau ariannu sydd ar gael i dimau cyfiawnder ieuenctid o fewn awdurdodau lleol, ac archwilio cyfleoedd i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd y cyllid hwnnw. Bydd y gwaith hwn yn werthfawr wrth asesu goblygiadau ariannol posibl datganoli.

Fel y gŵyr y pwyllgor, rydym hefyd yn cymryd camau i greu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar wasanaethau prawf, gan edrych ar y model sydd ar waith ym Manceinion gyda phartneriaid i weld os oes modd ei gymhwyso i Gymru. Gallai’r model hwnnw helpu i sicrhau mwy o eglurder am ffrydiau cyllido'r gwasanaethau prawf, mewn perthynas â darpariaeth a gedwir yn ôl a gwasanaethau datganoledig a ddefnyddir yn y maes prawf.

Y tu hwnt i'r meysydd hyn, ein huchelgais yw y bydd y gwaith parhaus i ddadgyfuno mwy o ddata yn sicrhau bod gwariant yn cael ei ddyrannu'n well i Gymru neu i Loegr, a thrwy hynny ganiatáu mapio mwy cywir o wariant a gedwir yn ôl sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yng Nghymru.

Ac yn olaf, yn y tymor hwy, rydym yn disgwyl y byddai datganoli cyfiawnder ymhellach yn golygu y byddai'n bosibl rhoi mwy o eglurder ynghylch dyraniadau’r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy’n gysylltiedig â chyfiawnder. Yn wir, mae sicrhau mwy o atebolrwydd yng Nghymru fel hyn yn un o’r dadleuon dros ddatganoli ymhellach.

**2. Yr amserlen ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â mapio costau gwasanaethau cyfiawnder?**

Fel y nodwyd uchod, mae mapio costau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn gymhleth ac nid ydym o reidrwydd yn rhagweld y gallwn lunio darlun llawn fel un darn o waith. Mae gwaith ar y gweill i fwrw ymlaen â'r trafodaethau ynghylch datganoli cyfiawnder ieuenctid a phrawf, fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ar 7 Awst, ac felly mae'r rhain yn enghreifftiau o feysydd lle rydym yn disgwyl cael map gwell o gostau gwasanaethau cyfiawnder erbyn dechrau 2026.

3. **A fyddai gan Lywodraeth Cymru bwerau gweithredol yn y model arfaethedig, mewn meysydd fel darparu gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid, a sut y byddai'r pwerau hynny'n berthnasol i rôl Llywodraeth y DU?**

Mae union natur pwerau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a'r diffiniad rhwng Llywodraeth y DU a Chymru, o ran cyfiawnder ieuenctid a phrawf yn bynciau i'w trafod â Llywodraeth y DU.

O ran cyfiawnder ieuenctid, fel y gwelir yn glir yn y Datganiad Ysgrifenedig y cyfeiriwyd ato uchod, rydym wedi cytuno y byddai swyddogion yn y ddwy lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i ymchwilio i'r opsiynau lle y gellid ailosod cyfrifoldebau yn y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys goruchwyliaeth strategol, trefniadau partneriaeth a llywodraethiant, a'r modd yr ariennir gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fel mannau cychwyn. Cytunwyd hefyd i ystyried ffurfioli'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd swyddogaethau deddfwriaethol a gweithredol mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid o reidrwydd yn rhan o'r drafodaeth honno.

Yn y dyfodol agos, rydym yn anelu at gael rhan fwy gweithredol wrth gomisiynu gwasanaethau prawf, tebyg i'r model sydd ar waith ar hyn o bryd ym Manceinion Fwyaf: mae'r pwerau sydd eu hangen i gyflawni hyn hefyd yn destun trafodaeth.

Mae ein huchelgeisiau yn mynd ymhell y tu hwnt i'r trafodaethau hyn, a byddem yn disgwyl i ragor o drafodaethau ddilyn.

Mae'n parhau i fod yn bolisi Llywodraeth Cymru y dylid datganoli'r system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd maes o law, sy'n cynnwys pwerau gweithredol a deddfwriaethol.

4. **Pa setiau data fydd yn cael eu dadgyfuno - yn enwedig o ran hil, ethnigrwydd, rhywedd, a charcharorion Cymreig mewn carchardai yn Lloegr, a chadarnhad o ran a fydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi'n gyhoeddus neu'n cael ei gadw fel data rheoli mewnol?**

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod pob un o'r meysydd a enwir yn feysydd pwysig lle byddai mwy o dryloywder yn fuddiol, ond rydym yn dal i fod wrthi'n nodi dichonoldeb adennill setiau data unigol o setiau data heb eu cyhoeddi sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac a weithredir ganddi. Rydym hefyd yn gweithio gyda thimau polisi Llywodraeth Cymru i bennu'r meysydd allweddol lle y mae absenoldeb data wedi'u dadgyfuno yn effeithio fwyaf ar eu gwaith, a lle y byddai cywiro hynny yn golygu y gallai'r data hynny daflu mwy o oleuni ar y broses o lunio polisïau. Yr uchelgais yw cyflawni'r tryloywder mwyaf posibl.

5. **Eglurder ynghylch pryd y bydd y data sy'n ymwneud â menywod beichiog ar gael?**

Fel uchod, rydym yn dal i fod wrthi'n nodi dichonoldeb casglu data arwahanol o setiau data heb eu cyhoeddi sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac a weithredir ganddi. Fodd bynnag, pan fo data yn ymwneud â nifer fach iawn o bobl, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddeiliad y data, yn yr achos hwn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, i beidio â rhyddhau unrhyw ddata sy'n gallu adnabod unigolion. Gallai menywod beichiog fod yn un o'r meysydd sy'n destun pryder.

6. **A oes amserlen neu gynllun gweithredu ar waith ar gyfer cyrraedd safon ofynnol genedlaethol ar gyfer cymorth iaith a lleferydd mewn timau troseddau ieuenctid, ac a fydd cyllid pwrpasol ar gael gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru i sicrhau mynediad cyson ledled Cymru?**

Ym mis Ionawr, fel rhan o Ddadl ehangach ar Therapyddion Iaith a Lleferydd yn y Senedd siaradais am anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn y system cyfiawnder troseddol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol mai Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am bennu anghenion iechyd y boblogaeth ac am benderfynu ar y ffordd orau o fodloni anghenion eu poblogaeth.

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn darparu therapi lleferydd ac iaith fel triniaeth iechyd lle mae ei angen yn glinigol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob plentyn yr asesir ei fod angen therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru, gan gynnwys plant sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder, yn amodol ar broses gyfeirio. Efallai na fydd ar bob plentyn sydd ag anghenion iaith, lleferydd, a chyfathrebu angen therapi arbenigol, nac yn cael budd ohono. Mae yna nifer o ymyriadau eraill a all gefnogi datrys anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu heb fod angen therapydd arbenigol.

Nodais hefyd mai lle timau gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid fyddai darparu unrhyw wasanaethau pellach sy'n ymwneud ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan eu Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn cyflawni eu rôl statudol neilltuedig.

Gall awdurdodau lleol sy'n ystyried bod angen darpariaeth ychwanegol gyflogi eu therapyddion lleferydd ac iaith eu hunain yn uniongyrchol neu gomisiynu ac ariannu darpariaeth drwy gyflogwr arall, fel y GIG neu'r sector preifat. Mae ganddynt fynediad at nifer o ffrydiau ariannu y gellid eu defnyddio i gefnogi hyn, ac amlygodd ein gwaith gydag awdurdodau lleol cyn uwchgynhadledd y llynedd sawl enghraifft lle mae hyn eisoes yn gweithio'n dda. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol sy'n defnyddio cynllun cyllido Turnaround Llywodraeth y DU, sydd wedi'i adnewyddu ar gyfer 2025-26, i ariannu'r ddarpariaeth.

7. **Pa ymyriadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynllunio—neu'n galw amdanynt—i leihau nifer y plant Duon a phlant sydd wedi bod mewn gofal sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid a phrawf? Sut fydd Llywodraeth Cymru yn mesur effaith yr ymyriadau hyn dros amser, yn enwedig o ran lleihau anghymesuredd?**

Mae Medr, y Comisiwn ar gyfer Addysg ac Ymchwil Trydyddol, yn ariannu addysg drydyddol ac ymchwil, gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion, prentisiaethau, addysg bellach, addysg uwch, ac ymchwil ac arloesi. Mae canllaw Swyddfa Gartref y DU: Preventing youth violence and gang involvement (Saesneg yn unig), yn awgrymu mai llwyddiant dysgu yw un o'r dangosyddion mwyaf pwerus sy'n atal troseddau ieuenctid.

Rydym yn benderfynol bod gan bob plentyn yng Nghymru y cymorth sydd ei angen arnynt i gyrraedd eu potensial llawn, cael mynediad at addysg o'r safon uchaf a ffynnu. Rydym yn cydnabod y gall rhai plant a phobl ifanc brofi rhwystrau i ddysgu, yn enwedig o fewn cymunedau ethnig lleiafrifol. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i gael gwared ar y rhwystrau hyn a sicrhau canlyniadau cyfartal.

Rydym yn darparu cyfanswm o £11m i awdurdodau lleol yn 2025-2026 drwy'r Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ariannu'r gwasanaethau cymorth pwysig hyn. Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu ac ymgorffori cyfoeth o arbenigedd ac arfer da mewn lleoliadau addysg ledled Cymru. Pwrpas y grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr yw cefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi rhwystrau i ddysgu, y cwricwlwm ac addysg. Gall y rhain gynnwys rhwystrau iaith neu ieithyddol, rhwystrau diwylliannol, a/neu rwystrau systemig a sefydliadol.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella deilliannau addysgol i blant â phrofiad o fod mewn gofal, gan gydnabod pwysigrwydd edrych yn gyfannol ar eu hanghenion yn yr ysgol. Rydym eisiau canolbwyntio hefyd ar gynnydd ar hyd llwybr dysgu'r plentyn ei hun ac ar allu’r plentyn i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion a'u cyfoedion. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu cyfres o ddogfennau canllaw ar arferion da. Bydd y rhain yn cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ymgorffori arferion da a nodwyd fel rhai effeithiol sy'n cefnogi anghenion dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Mae llais plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau.

Mae ein hymrwymiad i addysg pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cyd-fynd ag amrywiaeth o gefnogaeth mewn ysgolion ac ar gyfer addysg ôl-16. Trwy'r Grant Datblygu Disgyblion, bydd ychydig dros £5.6m ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi plant â phrofiad o fod mewn gofal yn benodol yn yr ysgol. Nod y cyllid yw gwella eu cyrhaeddiad drwy leihau'r rhwystrau y maent yn aml yn eu hwynebu i gyflawni eu potensial llawn. Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal mewn dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 11 hefyd yn gymwys ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion. Gellir ei ddefnyddio i brynu hanfodion ysgol fel gwisg ysgol, deunydd ysgrifennu ac offer. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o gymorth ariannol hefyd i alluogi dysgwyr i barhau â'u hastudiaethau mewn Sefydliadau Addysg Bellach.

Ynghyd â gwaith ysgolion a cholegau, bydd £11.4m yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy ein Grant Cymorth Ieuenctid yn 2025-26 er mwyn darparu cynnig gwaith ieuenctid cyfoethog ac amrywiol, gan helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial a darparu mannau diogel i'w galluogi i gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt , gan gynnwys datblygu eu llais, eu dylanwad, a'u lle yn y gymdeithas. Fel rhan o'r gweithgareddau hyn, disgwylir i bob awdurdod lleol ddarparu gweithgareddau penodol sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb a chynhwysiant, ac i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu anghenion pobl ifanc waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyd-gynnull ac yn cyd-gadeirio Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ynghyd â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. Ei brif bwrpas yw dod ag uwch arweinwyr ynghyd a galluogi arweinyddiaeth a goruchwyliaeth ar y cyd o'r system cyfiawnder ieuenctid. Yng nghyfarfod Ionawr 2025, roedd y Panel wedi adolygu a mireinio ei ffocws strategol, a chytunodd ar dri maes a fyddai'n cael sylw yn syth; sef partneriaeth ag addysg a rôl ysgolion fel man diogel, a'u cefnogi i adnabod anghenion ac ymyrryd yn gynnar, partneriaeth ag Iechyd ac anghenion plant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid a sut y gellir diwallu eu hanghenion; a phartneriaeth â phlismona a'r berthynas rhwng cyfiawnder ieuenctid a phlismona sy'n canolbwyntio ar blant. Mynychodd y Gweinidog Dakin gyfarfod diwethaf Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ar 14 Gorffennaf, i gefnogi ein partneriaeth barhaus.

Cafodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei ddiwygio a'i lansio ar 5 Tachwedd 2024, ac mae'n rhoi ystyriaeth i argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i weithrediad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'n adeiladu ar sylfeini'r cynllun gwreiddiol a'r gwersi a ddysgwyd dros y ddwy flynedd gyntaf, a bydd yn canolbwyntio ar raglen gyflawni drawslywodraethol a fydd yn arwain at welliant amlwg yn y canlyniadau ar gyfer pobl ethnig leiafrifol yng Nghymru.

Bydd nodau a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer 2024-2026 yn cyflawni canlyniadau amlwg a mesuradwy sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn gadarnhaol ar fywydau pobl ethnig leiafrifol ar lawr gwlad. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen ymgorffori gwrth-hiliaeth mewn sefydliadau a datgymalu strwythurau hiliol, sy'n gofyn am newidiadau i'w fframweithiau llywodraethu a gweithredol. Mae'r Cynllun diwygiedig yn ystyried argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i weithrediad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: [Cymru Wrth-hiliol (senedd.cymru)].

O ran mesur effeithiau'r ymyriadau hyn dros amser, gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau anghymuseredd, ymwelais â Swyddfa Prawf Caerdydd ar 10 Gorffennaf, lle cyfarfûm â swyddogion o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yng Nghymru. Roeddwn yn falch o glywed bod gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru dasglu anghymesuredd sy'n dadansoddi data i ysgogi gweithgarwch sy'n anelu at fynd i'r afael â meysydd lle gwelir canlyniadau anghymesur.

Gan ddefnyddio setiau data i nodi'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y gweithgarwch, comisiynir arweinwyr adrannol i naill ai esbonio'r anghymesuredd neu gymryd camau i newid y canlyniadau (neu'r ddau). Mae'r gweithgarwch yn cael ei fonitro trwy'r tasglu ac mae'r canlyniadau'n cael eu hymchwilio bob 3 mis i fonitro'r effaith. Mae gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru gynlluniau uchelgeisiol i barhau i ehangu gallu'r tasglu anghymesuredd drwy gyflwyno setiau data ychwanegol yn ystod 2025. Ac rydym yn parhau i weithio’n agos â’r tasglu wrth i’r gwaith hwn fynd rhagddo.

**Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

**8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i negodi setliad ariannu teg a chynaliadwy gyda Llywodraeth y DU ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai, yn enwedig yng ngoleuni'r galw cynyddol sydd am ofal iechyd?**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth y DU ar ffurf grant bloc a chyfran o'i chyllid blynyddol o drethi datganoledig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid penodol gan Lywodraeth y DU ar gyfer gofal iechyd carcharorion yn flynyddol. Yn 2014-15, cafodd Llywodraeth Cymru drosglwyddiad rheolaidd o £2.544m i gefnogi gofal iechyd carcharorion mewn carchardai cyhoeddus yng Nghymru. Nid oes unrhyw gyllid penodol ychwanegol wedi ei ddarparu i Lywodraeth Cymru (gan Lywodraeth y DU) ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai.

Pan fo gan fyrddau iechyd drefniadau cyllido uniongyrchol gyda HMPPS ar gyfer gofal iechyd carchardai, mae mwy o hyblygrwydd i gytuno ar rai elfennau o'r cyllid yn lleol i ddiwallu anghenion. Mae hyn yn cynnwys CEF Berwyn fel carchar cymharol newydd, a CEF Y Parc sy'n garchar preifat.

Rwy'n cydnabod bod anghenion poblogaeth y carchardai yng Nghymru yn newid, ad mae mwy o angen am y gwasanaeth iechyd. Mae hyn yn rhywbeth rwy eisoes wedi'i godi â Gweinidogion Llywodraeth y DU.

**9. Beth yw'r fformiwla ar gyfer pennu lefel y cyllid a ddyrennir i ofal iechyd mewn carchardai gan y byrddau iechyd? Pa oruchwyliaeth sydd, os o gwbl, o ran sicrhau ansawdd? Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb a digonolrwydd ledled Cymru?**

Unwaith y bydd cyllid yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth y DU, fel y gwyddoch, bydd Gweinidogion Cymru, drwy broses y gyllideb flynyddol, yn pennu cynlluniau ar gyfer gwariant adrannol Llywodraeth Cymru. Bydd dyraniadau'r GIG wedyn yn cael eu gwneud i'r byrddau iechyd. Mae poblogaeth y carchardai wedi'i chynnwys mewn amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddir fel sail i bennu cyfrannau canrannol dyraniadau'r GIG ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Mater felly i'r byrddau iechyd unigol yw penderfynu ar y dyraniad cyllid i garchardai yn eu hardal.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau'n wahanol ar gyfer Carchar y Parc a Charchar Berwyn. Er enghraifft, mae gofal sylfaenol yn CEF Y Parc yn cael ei ariannu drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng HMPPS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ar gyfer Carchar Berwyn, mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, HMPPS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Er bod cyfiawnder a chyfrifoldeb am garchardai yn swyddogaeth a gadwyd yn ôl, mae darparu gwasanaethau iechyd o fewn ystâd y carchar yn swyddogaeth i fyrddau iechyd Cymru ei benderfynu. Mae Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai ar waith. Mae'r cytundeb presennol yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd mewn carchardai ac yn nodi y “dylai'r carchar fod yn lle i'r unigolyn gael cyfle i newid cyfeiriad ei fywyd". Mae'n ein hymrwymo i "nod a rennir o sicrhau bod y rheini sydd yn y carchar yn cael byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a lles, a lle gallant gael gwasanaethau iechyd o’r un safon â'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned".

Mae’r blaenoriaethau’n seiliedig ar y cytundeb mai dull carchar cyfan yw hwn o wella canlyniadau iechyd a lles carcharorion yng Nghymru. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y gwasanaethau cystal â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yn y gymuned. Rydym wedi ymrwymo i wella'r cymorth sydd ar gael yn ystâd y carchardai yng Nghymru, yng nghyd-destun poblogaeth gynyddol y carchardai sydd â lefelau uwch o angen yng Nghymru, y gofynion ehangach ar y GIG a'n setliad cyllido cyffredinol.

Ar gyfer gwasanaethau iechyd yn benodol, mae'r byrddau iechyd yn cynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion lleol, a fyddai'n cynnwys yr ystâd ddiogel, lle bo hynny'n berthnasol. Mae trefniadau partneriaethau lleol sefydledig rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a charchardai i oruchwylio darpariaeth leol y gwasanaethau hyn.

**10. A wnaiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad o faint y mae pob bwrdd iechyd yn ei ddyrannu'n flynyddol i ofal iechyd carchardai?**

Fel uchod, Mae dyraniadau'r GIG yn cael eu gwneud i'r byrddau iechyd yng Nghymru. Mae poblogaeth y carchardai wedi'i chynnwys mewn amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddir fel sail i bennu cyfrannau canrannol dyraniadau'r GIG ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Mater felly i'r byrddau iechyd unigol yw penderfynu ar y dyraniad cyllid i garchardai yn eu hardal.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog dros Iechyd Meddwl a Lles
Minister for Mental Health and Wellbeing

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

1 Awst 2025

Annwyl Jane a Sarah,

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 14 Gorffennaf 2025 ar Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru, rwy'n ddiolchgar i Ysgrifennydd y Cabinet am fod yn bresennol, ac rwy'n gofyn am eglurhad ar y pwyntiau a ganlyn:

*1. a fydd mapio costau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol yn cynnwys dadansoddiad fesul math o wasanaeth ac ardal ddaearyddol yng Nghymru, a sut y gallai'r data hwnnw lywio penderfyniadau ariannu neu drafodaethau datganoli yn y dyfodol?*

*2. yr amserlen ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â mapio costau gwasanaethau cyfiawnder?*

*3. a fyddai gan Lywodraeth Cymru bwerau gweithredol yn y model arfaethedig, mewn meysydd fel darparu gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid, a sut y byddai'r pwerau hynny'n berthnasol i rôl Llywodraeth y DU?*

*4. pa setiau data fydd yn cael eu dadgyfuno - yn enwedig o ran hil, ethnigrwydd, rhywedd, a charcharorion Cymreig mewn carchardai yn Lloegr, a chadarnhad o ran a fydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi'n gyhoeddus neu'n cael ei gadw fel data rheoli mewnol?*

*5. eglurder ynghylch pryd y bydd y data sy'n ymwneud â menywod beichiog ar gael?*

*6. a oes amserlen neu gynllun gweithredu ar waith ar gyfer cyrraedd safon ofynnol genedlaethol ar gyfer cymorth iaith a lleferydd mewn timau troseddau ieuenctid, ac a fydd cyllid pwrpasol ar gael gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru i sicrhau mynediad cyson ledled Cymru?*

*7. pa ymyriadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynllunio—neu'n galw amdanynt—i leihau nifer y plant Duon a phlant sydd wedi bod mewn gofal sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid a phrawf? Sut fydd Llywodraeth Cymru yn mesur effaith yr ymyriadau hyn dros amser, yn enwedig o ran lleihau anghymesuredd?*

Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, mae'n ddrwg iawn gen i nad oeddech chi'n gallu bod yn bresennol yn y sesiwn a minnau'n gwybod pa mor ymroddedig ydych chi i'r maes hwn o'ch portffolio; rwy'n gobeithio'n fawr

eich bod chi'n teimlo'n well erbyn hyn. Gan nad oeddech yn gallu bod yn y sesiwn, a oes modd i chi ateb y cwestiynau canlynol:

*8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i negodi setliad ariannu teg a chynaliadwy gyda Llywodraeth y DU ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai, yn enwedig yng ngoleuni'r galw cynyddol sydd am ofal iechyd?*

*9. Beth yw'r fformiwla ar gyfer pennu lefel y cyllid a ddyrennir i ofal iechyd mewn carchardai gan y byrddau iechyd? Pa oruchwyliaeth sydd, os o gwbl, o ran sicrhau ansawdd? Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb a digonolrwydd ledled Cymru?*

*10. A wnaiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad o faint y mae pob bwrdd iechyd yn ei ddyrannu'n flynyddol i ofal iechyd carchardai?*

Byddwn yn croesawu ymateb o fewn yr amserlenni arferol.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at:

Ruth Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, Tŷ'r Cyffredin.

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref PO/JB0416/25

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

29 Awst 2025

Annwyl Jenny,

Trafododd y Senedd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol "Seinio'r Larwm: Llywodraethiant y Gwasanaethau Tân ac Achub" ar 9 Hydref 2024. Yn ystod y ddadl honno, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ei bwriad i ymgynghori ar gynigion diwygio llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystod 2025.

Cafodd yr ymgynghoriad, sy'n ymwneud ag opsiynau ar gyfer diwygio llywodraethiant a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub y gellir eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth a newid polisi yn nhymor y Senedd hon, ei gyhoeddi heddiw a cheir copi yma:

Diwygio awdurdodau tân ac achub yng Nghymru 2025 | LLYW.CYMRU

Mae'r ymgynghoriad yn dilyn cyfnod o drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys aelodau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, sydd wedi helpu i lunio'r opsiynau.
Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal tan 24 Hydref 2025.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Additional evidence

# Setting well-being objectives

## Our approach

When developing Nature and People Thriving Together: Our corporate plan to 2030, we consciously choose to take a systematic approach to embed the requirements of the Act from the outset. We adopted a project approach and mapped out how we would consider each of the 5 ways of working as we worked with our Board and Executive Team to develop the vision, mission, values and well-being objectives. We used the guidance on the sustainable development principle and setting well-being objectives to test ourselves at each stage.

This systematic and detailed approach allowed us to show our “workings” and iteratively refine and adapt our approach responding to evidence and feedback as it emerged. For example evidence from the Nature and Us Vision for the Natural Environment of Wales informed the development of the 3 WBOs, as well as publications by the UN on the nature, climate and pollution crises with new targets and approachs to nature loss and climate net zero.

The Board and Executive Team wanted the Corporate Plan to provide real clarity to colleagues and partners on our strategic direction and what we were focussed on to 2030. For this reason we chose to simplify the language and avoid the perception of multiple and competing priorities by using the language of Well-being Objectives and steps to take in our corporate plan.

## Working with the Wales Audit Office

Under the Act the Wales Audit Office are required to carry out examinations to assess the extent to which public bodies have acted in accordance with the the sustainable development principle when setting their well-being objectives.

The development of our well-being objectives was subject to examination. Following discussions we agreed to the examination being in “real time”, with WAO colleagues observing the process of setting the well-being objectives, allowing discussion and feedback.

We found the examination process very helpful, with the live discussions and feedback helping us to adjust and adapt our approach.

The WAO report on the setting of our well-being objectives can be found here:

3522A2023_nrw_wb o_examination_repo 3522A2023_nrw_wb o_examination_repo

# Opportunities to share experience and insight

Through applying the 5 ways of working we actively reached out to partners to involve them in the process of developing our well-being objectives and sought to identify opportunities for collaboration in the setting of the formal WBO and steps to take.

Nevertheless there are opportunities to strengthen this by working more collaboratively across public bodies as we **plan how** we will develop our respective well-being objectives – to share perspectives, timelines, approaches and resources so we can strengthen our collective approach, avoid duplication and involve our communities in a more meaningful way. One example, is the Nature and Us Vision for the natural environment in Wales. This resource, produced by NRW, gives really powerful insight into what our citizens want for nature and the environment in Wales and could be used by other public bodies as they consider how they contribute to the Resilient Wales Goal.

A“forum” of public body officers responsible for developing the well-being objectives and corporate/business plans could facilitate and enable greater collaboration on **how** we apply the 5 ways of working in the setting of our respective well-being objectives, sharing plans and timelines, key resources and insights on what works well.

# Annual Report and Accounts

The 2024/25 Business Plan is the first that is fully aligned to Corporate Plan Nature and People Thriving Together. All commitments in our 2024/25 Business Plan relate to our well-being objectives and specific steps to take. In the 2024/25 Annual Report and Accounts we have sought to maintain the line of sight from our corporate plan, well-being assessment, business plan and performance reporting. In doing this we have assumed a level of knowledge of the WFG Act and have cross-referenced to key documents. It is difficult to balance the guidance on the application of the WFG Act with the other extensive guidance for the preparation of the Annual Report and Accounts, notably Financial Reporting Manual (FReM).

Eitem 3.18

Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Anabledd a Chyflogaeth

## Ein hymateb i 'Mae'n bosibl cyflawni unrhyw beth gyda'r Gefnogaeth Gywir: Mynd i'r Afael â'r Bwlch Cyflogaeth i Bobl Anabledd'



Awst 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o:

**Adroddiad ESJC: Mae'n bosibl cyflawni unrhyw beth gyda'r gefnogaeth gywir. Mynd i'r afael â'r bwlch cyflogaeth i'r anabl - Ymateb Llywodraeth Cymru.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae'n meddwl Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru

**E-bost:** gwaithteg@llyw.cymru

**Ffôn:** 0300 060 4400

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.
Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma .......... 2

Am y ddogfen yma .......... 4

Argymhelliad 2 .......... 9

Argymhelliad 3 .......... 11

Argymhelliad 4 .......... 13

Argymhelliad 5 .......... 16

Argymhelliad 6 .......... 18

Argymhelliad 7 .......... 20

# Am y ddogfen yma





Mae'r **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** wedi ysgrifennu adroddiad o'r enw:

"Mae'n bosibl cyflawni unrhyw beth gyda'r gefnogaeth gywir: Mynd i'r afael â'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl".





Rydych chi'n gallu darllen yr adroddiad Hawdd ei Ddeall ar wefan y Senedd.



Mae'r adroddiad yn rhestru **7 argymhelliad** i gefnogi pobl anabl gyda chyflogaeth.



Mae argymhelliad yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor yn meddwl y dylen ni ei wneud.



Yn y ddogfen yma rydyn ni'n ymateb I beth maen nhw'n meddwl y dylen ni ei wneud.

# Argymhelliad 1



**Fe ddylai pobl sy'n gallu gweithio, ac sydd eisiau gweithio, gael y gefnogaeth maen nhw ei angen.**



Fe ddylai Llywodraeth Cymru:

- Cwblhau gwaith y **Tasglu Hawliau Anabledd** erbyn mis Mai 2025.




- Gorffen newid polisïau yn seiliedig ar yr adroddiad Drws ar Glo erbyn mis Mai 2025.




- Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd erbyn mis Mai 2025.



- Gwneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn rhan o gyfraith Cymru erbyn Ebrill 2026. Rydyn ni'n galw hyn yn CCUHPA yn fyr.



**Ein hymateb: Rydyn ni’n cytuno â’r syniad, ond mae angen i ni feddwl am sut mae’n gallu digwydd.**




Cafodd y Tasglu Hawliau Anabledd ei gyfarfod olaf ym mis Ionawr 2025.




Yn y cyfarfod yma, fe wnaethon nhw siarad am y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.



Mae’r adroddiad Drws ar Glo a’r Cynllun newydd yn dweud ei bod yn bwysig gweithio’n agos gyda phobl anabl.




Fe fydd Cynllun drafft  yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2025. Mae drafft yn meddwl ei bod yn bosibl ei newid.





Fe fydd y Cynllun yma yn para am 10 mlynedd ac yn cynnwys pob rhan o Lywodraeth Cymru.




Mae’r Cynllun yn sôn am beth sydd angen ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Mae’n edrych ar y gwahaniaethau rhwng pobl anabl a phobl sydd ddim yn anabl mewn gwaith a thâl.




Mae’n cynnwys camau i wneud pethau’n fwy teg.



Mae’r Cynllun hefyd yn cysylltu â’r gyfraith o’r enw Deddf Cydraddoldeb. Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu trin yn deg yn y gweithle.



Fe fyddwn ni'n sefydlu grŵp o'r enw Bwrdd Cynghori Allanol. Fe fyddan nhw'n edrych I weld bod ein cynlluniau yn rhedeg yn dda.

Mae grŵp wedi ei sefydlu i edrych ar:



- sut i wneud y CCUHPA yn rhan o gyfraith Cymru,



- a sut mae'n bosibl diogelu hawliau pobl anabl.



Fe fydd y gwaith yma yn helpu i wneud yn siŵr bod hawliau pobl yn cael eu diogelu. A gwneud yn siŵr bod newidiadau yn gweithio yn y ffyrdd gorau.

# Argymhelliad 2




**Edrych yn fanwl ar sut mae Busnes Cymru yn cefnogi busnesau i gyflogi mwy o bobl anabl.**

Fe ddylai Llywodraeth Cymru adolygu:



- y cyngor a'r canllawiau sydd ar gael
- sut mae cyngor yn cael ei rannu â chyflogwyr
- sut mae busnesau yn cael cymorth.



**Ein hymateb: Rydyn ni'n cytuno â'r syniad, ond mae angen i ni feddwl am sut mae'n gallu digwydd.**



Fe wnaeth Busnes Cymru adolygu eu gwasanaethau yn 2023.




Maen nhw'n gweithio gyda'n Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Maen nhw'n cynghori busnesau am gyflogi gweithwyr anabl.





Fe fydd Busnes Cymru yn adolygu'r canllawiau sydd yn cael eu rhoi i gyflogwyr. Fe fyddan nhw'n parhau i weithio gyda'r Hyrwyddwyr i wella ymwybyddiaeth.

# Argymhelliad 3




**Fe ddylai Llywodraeth Cymru osod targedau i fesur y cynnydd mae'r Hyrwyddwyr yn ei wneud.**




Fe ddylai Llywodraeth Cymru osod nodau ar gyfer yr Hyrwyddwyr ac ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn.



Fe ddylai'r adroddiad siarad am bethau fel:

- faint o weithiau maen nhw'n siarad â chyflogwyr



- faint o bobl sy'n cael swyddi oherwydd gwaith yr Hyrwyddwyr.





Fe ddylai hyn fod ar waith erbyn Gorffennaf 2025.



**Ein hymateb: Rydyn ni'n cytuno â'r syniad, ond mae angen i ni feddwl am sut mae'n gallu digwydd.**




Rydyn ni wedi cyhoeddi nodau ar gyfer yr Hyrwyddwyr.




Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad bob 6 mis sy'n siarad am y gwaith maen nhw wedi'i wneud.



Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn gweithio'n well na rhoi gwybodaeth am rifau yn unig.

# Argymhelliad 4




**Gofyn i Lywodraeth y DU wella'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd.**



Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddweud pa welliannau y dylid eu gwneud.





Fe ddylai ddweud sut y bydd y newidiadau yn cael eu gwneud ac erbyn pryd.




Os nad ydyn nhw'n gwneud y newidiadau, fe ddylen nhw edrych ar gynllun newydd.



**Ein hymateb: Rydyn ni'n cytuno.**




Rydyn ni'n siarad â Llywodraeth y DU am wneud newidiadau i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd.




Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'r Tasglu Hawliau Anabledd i edrych ar greu cynllun Cymreig.




Rydyn ni'n siarad â rhai cyflogwyr am fod yn Hyderus o ran Anabledd. Mae hyn yn meddwl helpu pobl anabl mewn gwaith.




Fe gawson ni 3 digwyddiad gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i helpu sefydliadau i weithio gyda'i gilydd yn well.




Fe fyddwn ni'n adrodd eto ar ddiwedd y flwyddyn.

# Argymhelliad 5



Mae'r llywodraeth, cynghorau a sefydliadau'r GIG yn gyflogwyr. Maen nhw'n gallu gwneud mwy i gau'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd.



Fe ddylen nhw adolygu sut maen nhw'n gweithio. A gwirio yn erbyn y Cynllun Gweithredu Anabledd newydd  sy'n dod allan.



Fe ddylen nhw osod nodau i gael Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd.



Fe ddylen nhw wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yn y gweithle.




Fe ddylai hyn gael ei wneud erbyn diwedd 2025.




**Ein hymateb: Rydyn ni'n cytuno â'r syniad, ond mae angen i ni feddwl am sut mae hyn yn gallu digwydd.**




Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig i gyrff sector cyhoeddus ddilyn y camau yma.



Mae cyrff sector cyhoeddus yn sefydliadau fel y GIG a chynghorau.




Fe fydd camau maen nhw'n gallu eu dilyn hefyd yn y Cynllun Hawliau Anabledd.

# Argymhelliad 6



**Fe ddylai cynlluniau i gefnogi pobl anabl fod yn fwy hyblyg.**

Fe ddylai Llywodraeth Cymru:



- gwneud rhaglenni cymorth yn fwy hyblyg



- codi'r terfyn oedran ar gyfer cynlluniau fel Twf Swyddi Cymru+



**Ein hymateb: Rydyn ni'n cytuno**



Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl ifanc anabl yn cael y cymorth maen nhw ei angen a phryd maen nhw ei angen.



Mae'r  newidiadau yn gallu bod yn rhan o gynllun nesaf Twf Swyddi Cymru.



Rydyn ni'n mynd i wneud yn siŵr bod y cynlluniau yma yn gweithio gyda'i gilydd yn well:

- Twf Swyddi Cymru
- ReAct+
- a Cymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy.

# Argymhelliad 7



**Fe ddylai'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd weithio gyda'r sector hawliau anabledd yn fwy.**



Mae'r sector hawliau anabledd yn meddwl sefydliadau, grwpiau a phobl sy'n ceisio gwella hawliau pobl anabl.




Fe ddylai Llywodraeth Cymru adrodd ar y gwaith yma erbyn mis Mai 2025.



**Ein hymateb: Rydyn ni'n cytuno â'r syniad, ond mae angen i ni feddwl am sut mae hyn yn gallu digwydd.**



Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd wedi gweithio gyda phobl o'r sector hawliau anabledd.




Mae mwy o waith wedi'i gynllunio. Er enghraifft, edrych ar effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.



Fe fyddan nhw'n parhau i weithio gyda'r sector hawliau anabledd ar gyfer ei gynlluniau yn y dyfodol.